Nodau Datblygu'r Mileniwm
Nod Datblygu'r Mileniwm 1 – Dileu tlodi eithriadol a newyn

Gwybodaeth a gweithgareddau

Targed – Rhwng 1990 a 2015, haneru'r gyfradd o bobl â'u hincwm yn llai na $1 y dydd.

Targed – Rhwng 1990 a 2015, haneru'r gyfradd o bobl sy'n dioddef o newyn.

Yn 1990, roedd bron i 28 y cant o bobl mewn gwledydd incwm isel a chanolig yn byw ar lai na $1 (50c) y dydd. Mae nifer o bobl sy'n byw ar y lefel hon o dlodi yn methu fforddio talu am anghenion sylfaenol megis bwyd. Bwriad y cyntaf o Nodau Datblygu'r Mileniwm yw gostwng y ffigwr hwn i 14 y cant erbyn 2015, gan godi dros 500 miliwn o bobl allan o dlodi eithafol. Er na fydd hyn yn arwain at ddileu tlodi'n llwyr, bydd yn dod â'r byd yn agosach at sefyllfa lle bydd gan bawb y lleiafswm angenrheidiol i fwydo a dilladu eu hunain.

Ymysg y gweithgareddau ar gyfer y nod hwn:

Astudiaeth achos ffermio Alpaca ym Mheriw
Gwybodaeth am ffermwyr alpaca Periw.

Byw ar un ddoler (50c) y dydd
Sut mae cael dau ben llinyn ynghyd ar 50c y dydd? Beth sydd ei angen arnom i fyw, a beth sy'n digwydd os nad yw'r pethau hyn gennym?

Beth yw tlodi?
Beth mae tlodi yn ei olygu? Faint o bobl y byd sy'n dlawd? Trafodaeth grŵp gan ddefnyddio ystadegau a dyfyniadau.

Ysgrifennu darbwyllol
Canllawiau ar sut i ysgrifennu at AS lleol am NDM 1

Nod Datblygu'r Mileniwm 1 – Dileu tlodi eithriadol a newyn

Targed – Haneru, rhwng 1990 a 2015, y gyfradd o bobl â'u hincwm yn llai na $1 y dydd.

Targed – Haneru, rhwng 1990 a 2015, y gyfradd o bobl sy'n dioddef o newyn.

Heddiw mae 1.2 biliwn o bobl ledled y byd yn byw ar lai na $1 y dydd, a bron i 850 miliwn yn llwglyd bob nos.[1] Mae'r nifer fwyaf o bobl dlawd yn byw yn ne Asia, ond mae'r gyfradd uchaf yn Affrica is-Sahara, lle mae dros 40 y cant o'r boblogaeth yn parhau i fyw ar ddoler y dydd neu lai. Mewn gwirionedd, mae'r nifer o bobl dlawd yn y rhanbarth wedi cynyddu dros y blynyddoedd. Prif nod y cyntaf o Nodau Datblygu'r Mileniwm yw haneru'r nifer o bobl sy'n byw mewn tlodi eithriadol o lefelau 1990 erbyn 2015. Er na fydd hyn yn golygu dileu tlodi yn llwyr, bydd yn dod â'r byd yn agosach at sefyllfa lle bydd gan bawb o leiaf y lleiafswm angenrheidiol i fwydo a dilladu eu hunain.

Syrthiodd y gyfradd o bobl sy'n byw mewn tlodi eithriadol ledled y byd, o bron i draean i lai na un o bob pump, rhwng 1990 a 2004. Os fydd y tueddiad hwn yn parhau, bydd y targed lleihau tlodi yn cael ei gyflawni wrth edrych ar y byd yn gyfan ac ar y mwyafrif o ranbarthau. Nid yw Affrica Is-Sahara, fodd bynnag, yn debygol o gyrraedd y targed.

Mae'n hanfodol i gymuned y byd gydweithio i leihau tlodi, gan gyflawni anghenion sylfaenol pobl. Gellid cyflawni llawer drwy ddiwygio masnach ryngwladol, fel bod gwledydd sy'n datblygu yn derbyn prisiau teg am eu nwyddau. **Bydd atal newid hinsawdd hefyd yn hanfodol os nad yw'r cynnydd ledled y byd i'w ddileu gan lifogydd, sychder a phrinder bwyd.** Mewn byd lle mae nifer o bobl yn well eu byd nag erioed, mae'n annerbyniol fod cymaint o rai eraill yn straffaglu i oroesi.

1 Adroddiad Blynyddol UNDP, 2008

Ffermio Alpaca, Periw

Mae Lucas Riquelme yn saith oed ac yn byw ym Macusani, tref fechan yn uchel yn yr Andes ym Mheriw. Mae gan ei dad braidd o alpacas, y mae'n eu ffermio ar gyfer eu gwlân. Er bod teulu Lucas yn gymharol gysurus, mae'r mwyafrif o ffermwyr alpaca yn dlawd iawn, yn ennill llai na dwy ddoler y dydd ar gyfartaledd, ac yn methu cyflawni eu hanghenion sylfaenol. Maent yn byw mewn cytiau pren, heb wres a phrin digon o fwyd.

Mae Macusani ar ochr mynydd o'r enw Allinccapac, sydd â rhewlif ar y copa. Arferai copa'r mynydd fod yn hollol wyn gydag eira, ond erbyn hyn mae rhannau enfawr, moel o'r mynydd i'w gweld. Mae'r rhewlif yn dadmer yn sgil newid hinsawdd. Mae hyn yn achosi pryder mawr i bobl, oherwydd daw eu cyflenwad dŵr o'r eira a rhew sy'n dadmer ac yn llifo i lawr yn ystod tymor cynhesaf y flwyddyn. Meddai athro Lucas, Carlos Enriquez 'Mae ein myfyrwyr yn ymwybodol fod argyfwng dŵr yn bosibl os na fydd rhywbeth yn cael ei wneud'. Gallai newid hinsawdd orfodi pobl i adael eu cartrefi a'u ffyrdd o fyw, a dod o hyd i ffyrdd eraill o gynnal eu hunain.

Bydd cyflawni'r NDM yn cynorthwyo i godi pobl fel ffermwyr alpaca Macusani allan o dlodi. Fodd bynnag, mae hefyd angen wynebu her newid hinsawdd – dylai gwledydd cyfoethog dalu i helpu gwledydd tlawd i ddygymod gyda'i effeithiau, fel bod pobl fel rhai Macusani yn medru addasu'n well i'r newidiadau sy'n cael eu gorfodi arnynt.

©

Gweithgaredd 1.1

Nod

- Dysgu disgyblion fod dros un biliwn o bobl yn byw ar lai na 50c y dydd.
- Eu cynorthwyo i ddychmygu sut brofiad yw hyn.

Byw ar un ddoler (50c) y dydd (9–14 oed)

1. Gofynnwch i'r dosbarth beth sydd ei angen i fyw, a nodwch eu hatebion. Pan fo awgrymiadau megis 'bwyd' neu 'dillad', gofynnwch gwestiynau eraill i'w hannog i feddwl yn ddyfnach. Faint o fwyd? Pa fath o fwyd? Pa mor aml? Anogwch hwy i feddwl yn ehangach na bwyd a dillad yn unig. Beth fyddai'n digwydd pe byddent yn cael eu taro'n wael? Beth fyddai'n digwydd pe byddent yn rhy oer?
2. Eglurwch fod dros biliwn o bobl yn y byd (tua unwaith a hanner poblogaeth Ewrop) yn byw ar lai na 50c y dydd. Er mwyn eu helpu i ddeall hyn, rhowch enghreifftiau:
   - Tanzania - byddai £2.50 (50c y person ar gyfer teulu o bump) yn ddigon i brynu blawd corn, llysiau, tomatos a winwns ar gyfer un pryd bwyd.
   - Periw - byddai £2.50 yn prynu bwyd i deulu o bump ar gyfer un diwrnod: kilo o gyw iâr, dau kilo o datws a digon o fara ar gyfer brecwast a phryd gyda'r hwyr.

   Faint o fwyd fyddai 50c yn ei brynu yn y DU?
3. Ychwanegwch y pethau eraill angenrheidiol at y rhestr, a gofynnwch i'r dosbarth eu graddio, gydag 1 ar gyfer y pwysicaf ac yn y blaen. Cymharwch eu hatebion.
   - Arian ar gyfer rhent neu forgais (os ydynt yn rhentu neu brynu tŷ).
   - Arian i dalu dyledion (os oes ganddynt ddyledion).
   - Dillad i'r teulu. (Ar wahân i amddiffyn rhag y tywydd a gweddustra, mae angen dillad addas ar gyfer y gwaith, er enghraifft).
   - Atgyweirio'r tŷ neu'r cynnwys. (Efallai bod dŵr glaw yn gollwng drwy'r to).
   - Nwy, trydan neu danwydd ar gyfer coginio a chynhesu. (Mae angen coginio'r mwyafrif o fwydydd. Mae angen i bobl sy'n byw mewn hinsawdd oerach gadw'n gynnes.)
   - Dŵr. (Mae'n rhaid i'r mwyafrif o bobl dalu cwmnïau dŵr am ddarparu dŵr.)
   - Arian ar gyfer ffioedd ysgol. (Mewn rhai gwledydd nid yw'r wladwriaeth yn darparu addysg am ddim.)
   - Trafnidiaeth. (Efallai bod angen i bobl fynd â'u nwyddau i'r farchnad neu deithio i drefi eraill i weithio.)
   - Moddion,meddygon, clinigau ac ysbytai. (Nid yw'r mwyafrif o wledydd yn darparu'r rhain am ddim.)
4. Eglurwch na ellid talu am nifer o'r pethau hyn ar 50c y dydd. Gofynnwch i ddisgyblion weithio mewn grwpiau a phenderfynu beth y byddent yn eu hepgor a pham.
5. Ar ddarn mawr o bapur, dylid creu 'cadwyn canlyniadau' yn dangos beth fyddai canlyniad hepgor y pethau hyn. Er enghraifft:



6. Dangoswch y gadwyn canlyniadau i grwpiau eraill.

©

Gweithgaredd 1.2

Cysylltiadau tlodi (11–14 oed)

Nod

- Ysgogi disgyblion i ystyried beth mae tlodi'n ei olygu.

Bydd angen

- Llungopïau o'r datganiadau isod – digon o setiau ar gyfer pob grŵp o bedwar o ddisgyblion
- Taflen fawr o bapur siwgr, glud a phinnau ffelt ar gyfer bob grŵp

1. Gofynnwch i'r disgyblion ddarllen drwy'r cardiau gyda'i gilydd, a thrafod yn eu grwpiau sut mae pob cerdyn yn cysylltu gyda'r lleill.
2. Gofynnwch iddynt roi'r cerdyn 'Tlodi' ar frig eu darn mawr o bapur, a threfnu'r cardiau eraill oddi tano, i ddangos sut mae pob un o'r amodau yn gysylltiedig neu wedi'u hachosi gan ei gilydd. Wedi cytuno ble i roi'r cardiau, gallant eu gludio. Nawr dylid rhoi saethau o'r cerdyn 'Tlodi' ac o un cerdyn i'r llall i ddangos y berthynas rhyngddynt. Gofynnwch am adborth gan un neu ddau o'r grwpiau am eu trafodaethau.
3. Trafodwch pa gamau sydd angen eu cymryd i dorri'r cylch (e.e. rhaglenni gofal iechyd am ddim, ariannu addysg). Beth yw'r ffactorau sy'n cyfrannu at dlodi (e.e. rhyfel; diffyg swyddi neu dir; methiant i dderbyn pris teg am gynnyrch; trafnidiaeth wael; diffyg gwasanaethau megis gofal iechyd; amodau tywydd eithafol yn sgil newid hinsawdd.... ayyb)? Gofynnwch i'r disgyblion gasglu erthyglau papur newydd i ddangos sut mae tlodi'n cael ei herio.

Cysylltiadau Tlodi

YSGOL

Gall rhai plant golli ysgol gan nad oes modd i'w rhieni dalu'r ffioedd, neu am eu bod yn rhy sâl i fynychu.

ADDYSG MERCHED

Mae merched yn aml yn cael eu rhwystro rhag mynd i'r ysgol, gan fod angen eu cymorth yn y cartref. Weithiau nid yw rhieni'n meddwl bod addysg yn bwysig i ferched.

DIM DIGON O ARIAN

Os nad oes gan bobl waith, ac os nad yw pobl yn medru gwerthu eu cynnyrch am bris teg, nid oes modd iddynt dalu am eu hanghenion sylfaenol – bwyd, dillad a lloches.

AMGYLCHEDD

Mae newid hinsawdd yn golygu llifogydd a sychder yn amlach ac yn fwy difrifol. Mae pobl dlawd yn dod yn fwy bregus i'w heffaith gan nad oes modd iddynt dyfu'r cnydau angenrheidiol i oroesi.

TLODI

Mae tua chwarter plant y byd yn byw mewn tlodi.

AFIECHYD

Mae nifer o bobl yn dioddef afiechydon megis dolur rhydd a malaria, y gellid eu hatal yn rhwydd neu a fyddai'n llai difrifol pe bai modd cyrraedd at foddion a gofal iechyd gwell.

MARWOLAETH MEWN PLENTYNDOD

Mae plant ifanc heb fwyd addas na gofal iechyd yn fwy tebygol o farw cyn tyfu i fyny.

IECHYD MAMAU

Mae menywod beichiog heb ofal meddygol, bwyd da nac addysg iechyd yn fwy tebygol o farw ar enedigaeth plant.

©

Faint o bobl sy'n dlawd

Diffiniadau tlodi

Tlodi cymharol: Mesur faint yn is yw incwm cartref na chyfartaledd incwm mewn gwlad.

Tlodi llwyr: Mesur y nifer o bobl sy'n byw dan lefel benodol neu'r nifer o bobl na all fforddio nwyddau a gwasanaethau sylfaenol.

50c y dydd yw'r lleiafswm safon byw yn y gwledydd tlotaf, felly mae'r 1.2 biliwn o bobl sy'n byw heddiw ar lai na hyn yn byw mewn tlodi llwyr.

Yn y DU

- Mae dwy filiwn o blant yn byw mewn cartrefi di-waith.
- Mae dros un person o bob pump yn byw mewn tlodi.

Yn y byd

- Mae 850 miliwn o bobl yn llwglyd wrth fynd i'r gwely bob nos.
- Mae tua 2.6 biliwn o bobl (bron i hanner poblogaeth y byd) yn byw ar lai na £1.00 y dydd.
- Mae 1.1 biliwn o bobl heb ddŵr glân.
- Mae 2.6 biliwn o bobl heb lanweithdra.
- Mae 1.6 biliwn o bobl (tua chwarter poblogaeth y byd) heb drydan.

Ffynhonnell: Rhaglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig, Banc y Byd a'r Athrofa Polisi Newydd (www.poverty.org.uk)

Gweithgaredd 1.3

Nod

- Annog disgyblion i feddwl am natur tlodi.

Bydd angen

- Llungopïau o'r testun, *Faint o bobl sy'n dlawd?* ar gyfer pob disgybl

Beth yw tlodi?

Nodyn: Dylai disgyblion fod wedi cwblhau naill ai Gweithgaredd 1.1 neu Gweithgaredd 1.2 cyn cyfranogi yn y gweithgaredd hwn.

1. Gofynnwch i'r disgyblion ystyried a ydynt yn teimlo'n gyfoethog neu dlawd. Gofynnwch a oeddent, wrth wneud hynny, wedi ystyried a oeddent yn gyfoethocach neu dlotach na phobl eraill. A oes un ohonynt mor gyfoethog ag enwogion y byd chwaraeon neu'r byd pop?
2. Gofynnwch iddynt ystyried a ydynt yn gyfoethocach neu'n dlotach na'r bechgyn ar y poster. Sut penderfynwyd ar yr atebion?
3. Dywedwch wrthynt fod 1.2 biliwn o bobl yn byw ar lai na 50c y dydd. 50c (neu un ddoler) sy'n cynrychioli lleiafswm safon byw yn y gwledydd tlotaf. Gofynnwch i'r disgyblion ystyried beth fyddai'r swm isaf y gallai rhywun fyw arno yn y DU. Dylid ystyried yr hyn a ddysgwyd yn y gweithgareddau blaenorol a chyfiawnhau'r swm yn eu penderfyniad.
4. Dosbarthwch y daflen *Faint o bobl sy'n dlawd? a* gofynnwch iddynt edrych ar y diffiniadau o dlodi cymharol a llwyr. Soniwch am y trafodaethau a gafwyd. Efallai y gallech fel dosbarth ailysgrifennu'r diffiniadau yn eich geiriau eich hunain.
5. Gofynnwch i'r disgyblion weithio mewn grwpiau o bedwar neu lai, a thrafod a ydynt yn cytuno (ac i ba raddau) gyda'r datganiadau canlynol, gan ddefnyddio diffiniadau ac ystadegau i ysgogi eu trafodaethau:
   - Nid oes gan dlodi unrhyw beth i'w wneud ag arian.
   - Gall tlodi olygu rhywbeth gwahanol dan amodau gwahanol.
   - Mae tlodi'n golygu bod heb reolaeth dros eich bywyd.
   - Ni allwch fod yn hapus ac yn dlawd ar yr un pryd.
   - Mae'r DU yn wlad gyfoethog. Mae hynny'n golygu nad yw unrhyw un yma'n dlawd.
6. Gofynnwch i'r grwpiau roi adborth i'r dosbarth. A oedd y mwyafrif yn rhannu'r un farn?

©

Swyddi'n rhoi bwyd i dlodion Ethiopia[1]

Arweiniodd cyfuniad o ddiffyg glaw a phrisiau uwch at brinder bwyd ledled Ethiopia yn 2008. Mewn wyth rhanbarth, sicrhaodd rhaglen dan nawdd yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol fod rhai o bobl fwyaf bregus Ethiopia yn medru goroesi.

Roedd y rhaglen yn darparu bwyd ac arian i gartrefi bregus mewn cyfnewid am eu gwaith yn gwella adnoddau cyhoeddus. Roedd cymunedau'n elwa o gael gwell ffyrdd a phwyntiau dŵr, ac unigolion yn medru osgoi newyn drwy brynu asedau cynhyrchu bwyd megis gwartheg.

Mae Aster Kurma yn byw gyda'i gŵr a'i wyth o blant yn ardal Kedida Gamela, tua 350 kilometr i'r de o Addis Ababa. Effeithiodd y diffyg glaw yn wael ar yr ardal hon, sy'n arfer dioddef sychder. Bum diwrnod yr wythnos, mae Aster yn gweithio ar raglen cadwraeth a phlannu coed, yn helpu i droi'r tir sych o amgylch ei chartref yn wyrddni. Daw taliadau ar ffurf bwyd neu arian. Yn ogystal â chyflawni anghenion uniongyrchol Aster drwy ddarparu ffynhonnell sefydlog o fwyd, mae'r rhaglen yn ei harfogi ar gyfer y tymor hirach. Mae wedi medru prynu offer ffermio a gwartheg, gan greu cyfleoedd newydd i'r teulu cyfan. "Nid yn unig gallaf fwydo fy mhlant, ond gallaf eu hanfon i'r ysgol hefyd," meddai.

Gweithgaredd 1.4

Llythyr at eich AS

Nod

- Annog disgyblion i weithredu'n effeithiol gan ysgrifennu'n ddarbwyllol.

Bydd angen

- Mynediad at fanylion eich AS lleol – gweler www.theyworkforyou.com/mp
- Manylion cyswllt Ysgolion a Ieuenctid Oxfam i adael i ni wybod am eich gweithredoedd education@oxfam.org.uk

Nodyn: Dylai disgyblion fod wedi cwblhau naill ai Gweithgaredd 1.1, 1.2 neu Gweithgaredd 1.3 cyn cyfranogi yn y gweithgaredd hwn.

1. Gofynnwch i ddisgyblion ystyried sut fyddai modd iddynt helpu i newid pethau er gwell fel y rhaglen uchod. Rhestrwch y camau posibl sy'n cael eu hawgrymu, a thrafodwch effeithiolrwydd a diffygion pob syniad.
2. Gofynnwch iddynt ystyried yr hyn y medrai eu AS lleol ei wneud. Eglurwch er nad yw eich AS lleol o reidrwydd yn delio yn uniongyrchol gyda chymorth i wledydd sy'n datblygu, gall ddod â'r mater at sylw'r gweinidog perthnasol yn y cabinet, a phleidleisio pan fo syniadau polisi posibl yn dod gerbron.
3. Cyflwynwch y syniad o ysgrifennu darbwyllol, a gofynnwch iddynt ysgrifennu llythyr, efallai i'w AS, am y materion y dysgwyd amdanynt. Os ydynt yn 13+ atgoffwch hwy y byddant o bosibl yn pleidleisio yn yr etholiad nesaf.
4. Dosbarthwch y daflen *Ysgrifennu llythyr darbwyllol* a gofynnwch iddynt gynllunio llythyr. Gellid ail-ddangos y materion allweddol i atgoffa'r disgyblion.

5.Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu llythyr darbwyllol. Atgoffwch hwy am y pwyntiau allweddol wrth ysgrifennu at AS:

- *Mae ASau yn brysur iawn. Cadwch eich llythyr yn fyr. Dylai un ochr A4 fod yn ddigon.*
- *Byddwch yn gwrtais. Nid oes dim i'w ennill o golli'ch tymer!*
- *Cofiwch gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad llawn. Mae enw'r ysgol ac enw eich athro yn dderbyniol. Mae angen i chi egluro eich bod yn ddarpar etholwr, ac mae angen i'r AS fedru ateb.*
- *Ysgrifennwch yn eich geiriau'ch hun. Dangoswch eich bod yn berson go-iawn.*
- *Os ydych yn anfon llythyr mewn llawysgrifen, sicrhewch ei fod yn ddealladwy!*
- *Cadwch at un mater fesul llythyr.*
- *Defnyddiwch bwyntiau i danlinellu eich dadleuon.*
- *Cofiwch gynnwys ffeithiau i ategu'ch achos.*
- *Yn bwysicach na dim, eglurwch pa ymateb yr hoffech oddi wrth yr AS.*
- *Os fyddwch yn argraffu'r llythyr, cofiwch ei lofnodi'n bersonol.*
- ***Cofiwch** ofyn am ateb.*
- *Peidiwch ag ysgrifennu at ASau ac eithrio'ch un chi. Nid oes gofyn iddynt ddarllen llythyron nad ydynt oddi wrth eu hetholwyr, a gall rhai ASau ddigio.*

6. Gofynnwch i un neu ddau o ddisgyblion ddarllen eu llythyron i'r dosbarth neu weithio mewn

©

grwpiau i roi adborth am beth oedd yn effeithiol. Gellid anfon y llythyron gorau. Rhowch wybod i Oxfam os fyddwch yn eu hanfon, er mwyn i ni ddilyn y datblygiadau.

Mae Oxfam wedi ymrwymo i ddarparu'r gefnogaeth orau posibl i ysgolion a grwpiau ieuenctid, ac rydym am asesu effaith ein gwaith gyda phobl ifanc.

Defnyddiwch y slip isod i ddweud wrthym am eich gwersi neu brosiectau NDM neu anfonwch ebost at education@oxfam.org.uk

……✂……

Enw Athro:

Enw a Chyfeiriad yr Ysgol:

Cod Post:

Ebost*

Nifer o ddisgyblion sy'n dysgu am yr NDM:
Oedran disgyblion:

Disgrifiad addysg NDM:

Dychwelwch y slip hwn at:

Tîm Ieuenctid ac Ysgolion Oxfam
Oxfam House
John Smith Drive
Rhydychen OX4 2JY

*Nodwch eich cyfeiriad ebost er mwyn derbyn negeseuon gennym am ein prosiectau a'n gweithgareddau. Gallwch dynnu'ch enw oddi ar y rhestr ar unrhyw adeg. Hoffem eich hysbysu am ein prosiectau a'n gweithgareddau. Fodd bynnag, pe bai'n well gennych beidio derbyn gwybodaeth o'r fath, anfonwch ebost at changes@oxfam.org.uk, ffoniwch 0300 200 1300 neu ysgrifennwch at Cyswllt Cefnogwyr, Oxfam House, John Smith Drive, Rhydychen OX4 2JY.

©

	Ysgrifennu Llythyr Darbwyllol	
Pwrpas	Beth ydych am i'ch AS ei wneud? • Cadw at yr adduned i ddarparu mwy a gwell cymorth i wledydd sy'n datblygu • Dileu dyledion gwledydd sy'n datblygu i'r wlad hon • Sicrhau rheolau masnach tecach sy'n caniatáu i bobl mewn gwledydd sy'n datblygu dderbyn arian teg am eu gwaith • Pwyso ar wledydd datblygedig eraill i wneud yr un fath • Ymrwymo at fargen deg, diogel a gorfodol rhwng bob gwlad yn y CU i herio newid hinsawdd	
Cynulleidfa	At bwy ydych chi'n anelu'ch llythyr? Eich AS lleol Pam ddylent wrando arnoch? Maent yn eich cynrychioli mewn llywodraeth. Os ydych chi'n 13+ mae'n bosibl y byddwch yn pleidleisio yn yr etholiad cyffredinol nesaf (2015) ac mae angen eich pleidlais **chi**. Os ydych yn iau na 13 efallai y byddwch yn dylanwadu ar bleidlais eich rhieni.	
Iaith	Pa rai o'r nodweddion perswadiol canlynol fedrwch chi eu cynnwys yn eich llythyr? • Tystiolaeth gadarn – ystadegau • Apelio at y pen/galon • Cadarnhaol • Datganiadau/dyfyniadau • Defnyddio "fi", "ni", "ein", "chi" • Defnyddio cymysgedd o frawddegau hir a byr • Iaith ffurfiol • Berfau cryf (bydd, angen, rhaid, dylai, gallai) • Ansoddeiriau i ddisgrifio • Rheol 3 • Cyflythreniad • Ailadrodd • Cwestiynau rhethregol • Buddiannau • Geiriau emosiynol	
Patrwm	Meddyliwch am ffyrdd o strwythuro'r hyn yr ydych am ei ddweud: • Paragraffau • Penawdau • Adrannau • Pwyntiau byr • Trefnu eich syniadau yn ddadl darbwyllol	
Adolygu'ch Gwaith	Sicrhewch eich bod yn egluro: • Beth sydd angen ei wneud? • Pwy sy'n cael eu heffeithio, pwy sydd angen gwneud rhywbeth? Po fwyaf personol, y gorau. • Pryd wnaeth neu fydd yn digwydd? • Ble mae'n digwydd, a ddylai hyn ddigwydd? • Pwy ddywedodd? O ble ddaeth y wybodaeth?	

©

Sut i Weithredu

Ar ôl y gwersi, efallai y bydd rhai myfyrwyr am geisio gwneud rhywbeth am y materion a godwyd. Dyma rai awgrymiadau ar gyfer camau pellach y gallai myfyrwyr eu cymryd.

Camau

- Ceisio byw ar 50c y dydd a chadw blog.
- Gwneud arddangosfa ysgol am achosion tlodi a newyn a beth yw'r atebion.
- Cwblhau taflen waith www.oxfam.org.uk/education

Codi arian

- Gwahodd pobl i ginio elusennol ar gyfer "Diwrnod Bwyd y Byd" 16 Hydref 2010 a chodi tâl mynediad.
- Cynnig gwneud "gwaith" am 50c. Gallech olchi car, tacluso cwpwrdd athro, palu gardd rhywun. Eglurwch pam yr ydych yn gofyn am 50c (dyna'r swm o arian sy'n cynnal rhai pobl bob dydd, ac mae'n swm bychan o arian, fel y 0.7% yr ydym yn gofyn i lywodraethau ymrwymo iddo). Yn aml bydd pobl eisiau rhoi mwy i chi. Beth bynnag, bydd sawl 50c yn tyfu'n gyflym.

NODER Cofiwch ein hysbysu am unrhyw gamau gennych chi neu'ch disgyblion. education@oxfam.org.uk

Enghraifft o lythyr at AS

Eich enw
Tŷ,
Stryd,
Tref,
Cod Post
Rhif ffôn/Ebost

Enw'r AS
Tŷ'r Cyffredin,
Llundain,
SW1A 0AA

Dyddiad

Annwyl

Rwy'n poeni am X.

Mae hyn yn effeithio arnaf oherwydd Y.

Crynodeb o'r broblem.

Buaswn yn ddiolchgar pe bai modd i chi godi fy mhryderon gyda Z, yr wyf yn credu ei fod yn gyfrifol am yr adrannau hyn o'r Mesur / maes hwn o lywodraeth.

Yn gywir,
Eich enw

Am fwy o adnoddau ar Dlodi a Newyn ewch at:
www.oxfam.org.uk/education/resources/climate_change_poverty_women

www.oxfam.org.uk/education/resources/making_a_meal_of_it

www.oxfam.org.uk/education/resources/world_food_crisis

www.oxfam.org.uk/education/resources/our_food_our_world

©